



DARLLENWCH  
Genesis 13:1-18  
14: 1-16



ADNOD  
ALLWEDDOL  
Josua 24: 15

## Astudiaeth 2 Abraham – Ei Ddewis

### Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Mathew 6: 33 Marc 8: 36

Rydyn ni'n gwneud dewisiadau o hyd - pa bynciau i'w hastudio yn yr ysgol, pa yrfa i anelu ati, pa chwaraeon i'w chwarae a phwy i'w cymryd yn ffrindiau. Rydwn ni hefyd yn gwneud dewisiadau ynglŷn â Duw - ai dilyn yr Arglwydd neu fynd ein ffordd ein hunain. Yn yr astudiaeth hon, fe ddysgw'n sut i wneud y dewis iawn mewn bywyd.


### C Darllenwch Genesis 13: 1-4 yn ofalus a gwneud y Croesair i ddysgu am gefndir yr astudiaeth hon.

#### I Lawr

1. O ble y daeth Abram?
2. I ble y daeth Abram?
4. Roedd Abram yng Nghanaan am fod Duw wedi ei .....
6. Beth adeiladodd Abram yn 2 i lawr?

#### Ar Draws

3. Mewn beth yr oedd Abram yn byw?
4. Roedd gan Abram lawer o \_\_\_\_\_ ac aur.
5. Pwy oedd gydag Abram?
8. Pwy arall oedd gydag Abram?



4

### C Eglurwch yn eich geiriau eich hunan pam na allai Abram a Lot fyw gyda'i gilydd.


2

Rhoddodd Abram y cyfle i Lot wneud y dewis cyntaf.

### C Ysgrifennwch beth yr awgrymodd Abram wrth Lot.

--

1

### C Tanlinellwch y geiriau sy'n disgrifio'r ardal a ddewisodd Lot.

Wedi'i dyfrhau'n dda / yn y gorllewin / Gwastadedd lorddonen / anialwch / Dyffryn Nil / agos at Sodom a Gomorra / yn agos at Jericho.

2

Gwnaeth Lot dri chamgymeriad wrth ddewis:

1. Ni ofynnodd i Dduw pa ffordd y dylai fynd.
2. Ni roddodd y dewis cyntaf i'w ewythr Abram, er mai hynny fyddai'r peth cwrtais i'w wneud gan fod Abram yn hŷn nag ef, ac wedi gwneud cymaint iddo.
3. Dewisodd fynd i fyw yn agos at ddinas lle'r oedd y bobl yn ddrwg iawn.

Rhaid i ni bob amser ofyn i Dduw beth i'w wneud pan fydd gennym ddewis pwysig o'n blaen. Rhaid i ni beidio byth â gwneud dewis sy'n ein rhoi mewn sefyllfa lle y gallen ni gael ein tentio i bechu.

Fe arhosodd Abram yng Nghanaan.

**C** Ar ôl i Lot adael, gwnaeth Duw addewid arall i Abram ynglŷn â'r tir.  
Ysgrifennwch yr addewid.

Am fod Abram wedi bod yn ufudd i Dduw, gwnaeth Duw ragor o addewidion iddo ynglŷn â'i ddisgynyddion.

**C** Rhowch ✓ neu X i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir.

Aeth Lot i'r dwyrain ond i'r gorllewin yr oedd tir Abram. ....

Byddai teulu Abram fel coed yn y goedwig. ....

Câi Abram fynd i ble bynnag y dymunai yn y tir. ....

Byddai Duw'n rhoi'r tir hwn i gyd i Abram. ....

Roedd Abram wrth ei fodd gydag addewidion Duw.

**C** Beth wnaeth Abram i ddiolch i Dduw?

Tra oedd Abram yn derbyn bendith Duw, roedd Lot wedi ei ddal mewn brwydr. (14:1 a 2)

**C** Tynnwch linellau i gysylltu'r rhifau cywir.

Roedd	5	brenin yn ymladd yn erbyn	3
	4		7
	4		5

Mae'n edrych yn debyg bod Lot wedi symud i ddinas ddrwg Sodom erbyn hyn.

**C** Ysgrifennwch frawddeg i egluro beth oedd wedi digwydd iddo yn y frwydr. (14: 12)

**C** Faint o ddynion aeth Abram gydag ef? Pa bryd yr ymosodon nhw?

Felly, achubodd Abram Lot a'i eiddo. Nid oedd Lot wedi gwneud y dewis iawn, ac roedd wedi mynd i'r cyfeiriad anghywir. Dewrder ei ewythr yn unig a sicrhodd ei ryddid iddo.

Mae'n hawdd i ni wneud y dewisiadau anghywir yn yr ysgol, yn y gwaith, gyda ffrindiau neu hyd yn oed gartref. Ydych chi'n barod i wneud y dewis a wnaeth Josua yn yr Adnod Allweddol?

**C** Chwiliwch am yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch hi.